Newyddion gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Hydref 2006 — Rhifyn 2

Yn y Rhifyn Hwn:

• Yfed a gyrru • Cynllun cludiant Cymru • Seminar ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd
• Beiciau modur bach • Marwolaethau ac anafiadau ar Ffyrdd Prydain
• Methu â rhoi gwybod am yr holl ddamweiniau ar y ffyrdd • MORR
• Rhinweddau llinellau gwyn • Osgoi slaes chwip • Mesur newydd i dargedu llabystiaid
• ANPR • Mynegai Perfformiad yr UE • Tacograffau digidol • Diwrnod cofio ledled y byd

Ystadegau Cymru ynghylch yfed a gyrru yn 'annerbyniol'

Cafodd dros 400 o bobl eu harestio yn ystod mis o ymgyrchu gan heddluoedd Cymru yn erbyn yfed a gyrru.

Yn ystod ymgyrch 'derbyn dim' adeg Cwpan y Byd ym mis Mehefin, rhoddwyd profion anadl i gyfanswm o 6,857 o yrwyr. Cafwyd bod 416 o'r profion hynny'n gadarnhaol.

Rhoddodd pedwar heddlu Cymru – Gogledd Cymru, Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent – hwb newydd i'w hymgyrch yn ystod y mis hyd at 5 Gorffennaf i rwystro pobl rhag gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau.

Gan Heddlu'r De y cafwyd y ffigurau gwaethaf. Yr oedd ychydig dros 16% o'r rhai a brofwyd dros y terfyn. Yn nhiriogaethau'r tri heddlu arall, ychydig dros 4% fethodd y prawf.

Dywedodd y prif arolygydd ***Geraint Anwyl,*** pennaeth adran cefnogaeth weithredol Heddlu'r Gogledd ac arweinydd yr ymgyrch, fod y ffigurau 'yn siomedig ac yn annerbyniol'.

Yr heddlu'n canmol ymgyrch i 'enwi a chywilyddio'

Mae Heddlu'r De wedi canmol papur y South Wales Evening Post am ei ymgyrch i enwi a chywilyddio'r rhai sydd wedi'u dal yn yfed a gyrru. Cefnogai'r ymgyrch honno fis o ymgyrchu gan yr heddlu eu hunain o dan Operation Heatwave.

Gwta ddeuddydd ar ôl i'r ymgyrch gychwyn, fe enwodd a chywilyddiodd yr Evening Post y cyntaf i gael ei ddal yn yfed a gyrru. Cafodd ei wahardd rhag gyrru am ddwy flynedd a'i ddirwyo £170.

Datgelu cynllun cludiant Cymru

Yr elfennau allweddol mewn strategaeth gludiant newydd i Gymru yw prisio ffyrdd, cynyddu gallu'r rheilffyrdd i gludo teithwyr a nwyddau, a defnyddio rhagor ar y dechnoleg newydd.
Tair prif thema sydd i ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef:
Cwtogi ar deithio'n gyffredinol, cynyddu'r defnyddio ar ffurfiau fwy cynaladwy ac iach ar deithio, a sicrhau system gludiant fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae'r strategaeth yn pwysleisio cyfraniad cludiant at gyflawni polisïau ehangach mewn meysydd fel datblygiad economaidd, addysg, iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r amgylchedd.
Yn ôl y ddogfen, "does dim dwywaith" nad oes i brisio ffyrdd ran allweddol i'w chwarae, yn enwedig wrth helpu i daclo'r tagfeydd cynyddol yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain. Ceir mwy o ddefnyddio ar geir yng Nghymru nag yn weddill Prydain, yn rhannol oherwydd ei hardaloedd anghysbell a phrin eu poblogaeth ac am nad oes ganddi ddinasoedd mawr.
Bwriad y Cynulliad yw astudio cynllun cenedlaethol i brisio ffyrdd, a chanfod effeithiau posibl hynny ar wahanol fathau o ffyrdd a defnyddwyr. Byddai'r cynllun yn gyson â chynlluniau eraill ledled Prydain.

http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/consultation/walestransportstrategy?lang=cy

Seminar Diogelwch Ffyrdd Cymru

Daeth bron 100 o weithwyr proffesiynol ym maes diogelwch y ffyrdd yng Nghymru i Goleg y Drindod yng Nghaerfyrddin ar 6/7 Medi i'r Seminar blynyddol ar Ddiogelwch y Ffyrdd yng Nghymru.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd yr oedd: Risg Ffyrdd Galwedigaethol, Camerâu Diogelwch, Diogelwch Cludiant Ysgol ac Effeithiolrwydd Theatr mewn Addysg.
Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd cynnal y perfformiad cyntaf o gynhyrchiad Cyfnod Allweddol Dau, '***Baron Chance and the Invincibles'*** gan Gwmni Theatr Tiny Giants.

Perygl i feiciau modur bach gael eu malu

O dan ganllawiau newydd sydd wedi'u cyhoeddi gan y Tasglu Parch, gallai'r rhai sy'n gyrru beiciau modur bach yn ddi-hid gan darfu ac amharu ar gymunedau gael pwyntiau ar eu trwydded (hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw un eto), wynebu gwaharddiad rhag gyrru, neu ddirwy, neu hyd yn oed gael eu cerbydau wedi'u malu.
Ers Medi 2004, mae o leiaf saith o bobl wedi'u lladd mewn damweiniau beiciau modur bach. Does dim ffigurau cenedlaethol am yr anafiadau a achoswyd wrth ddefnyddio beiciau modur bach, ond o'r saith damwain y bu pobl farw ynddynt:

- **Lladdwyd plant dan 15 oed mewn pump ohonynt**
- **Digwyddodd chwech ohonynt ar y ffordd**
- **Yn un ohonynt, lladdwyd plant ifanc a oedd yn teithio ar y beic modur bach.**

Cewch ragor o wybodaeth a chyngor yn:

http://press.homeoffice.gov.uk/press-releases/mini-motos-ban
http://www.rospa.com/waterandleisuresafety/minimoto_safety.htm

Marwolaethau ac Anafiadau ar Ffyrdd Prydain: Prif Ganlyniadau 2005

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhyddhau'r brif set o ddata am y rhain yn 2005.

Cafwyd gwybod:

- Bod 271,017 o bobl wedi'u hanafu neu eu lladd ar ffyrdd Prydain yn 2005, sef 3 y cant yn llai nag yn 2004.
- Lladdwyd 3,201 o bobl, sef 1 y cant yn llai nag yn 2004.
- Cafodd 28,954 o bobl eu hanafu'n ddifrifol (7 y cant yn llai nag yn 2004) a chafodd 238,862 fân anafiadau (3 y cant yn llai nag yn 2004).

http://www.dft.gov.uk/stellent/groups/dft_transstats/documents/page/dft_transstats_611922.hcsp

Methu â rhoi gwybod am yr holl ddamweiniau ar y ffyrdd

Dangosodd ymchwil a wnaed yn y 1990au na chaiff yr heddlu wybod am lawer o anafiadau sy'n digwydd mewn damweiniau na chaiff pobl eu lladd ynddyn nhw. Yn ogystal, ni chaiff rhai o'r anafiadau y rhoir gwybod i'r heddlu amdanyn nhw mo'u cofnodi a'r duedd yw methu â sylweddoli'n union pa mor ddifrifol yw'r anafiadau.

Effaith bosibl hynny i gyd yw y gall fod cynifer â 2.76 gwaith cymaint o anafiadau difrifol ag a gaiff eu cofnodi yn y ffigurau cenedlaethol, ac 1.70 gwaith cynifer o fân anafiadau, yn ôl Adroddiad 173 y TRL, *Comparison of hospital and police casualty data: a national study* gan H F Simpson.

Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi cyhoeddi dau adroddiad pellach, sef: ***Under-reporting of road accidents: Phase 1 (Road Safety Research Report 69)*** gan Heather Ward, Ronan Lyons a Roselle Thoreau a'r ddogfen gysylltiedig ***Road accident casualties: a comparison of STATS19 data with Hospital Episodes Statistics*****.** Mae'r Adran wrthi'n ymchwilio ymhellach i weld a oes newid wedi bod yn y sefyllfa hon.

www.dft.gov.uk/stellent/groups/dft_rdsafety/documents/page/dft_rdsafety_611755.pdf
www.dft.gov.uk/stellent/groups/dft_rdsafety/documents/page/dft_rdsafety_611756.pdf

RoSPA wrth ei fodd â'r ymateb i MORR

Dywed RoSPA fod y diddordeb yn niogelwch y rhai sy'n gyrru wrth eu gwaith wedi 'cynyddu'n aruthrol' dros y flwyddyn ddiwethaf.

Meddai ***Charles Davis,*** pennaeth datrysiadau i yrwyr a fflydoedd: "Rydyn ni wrth ein bodd o weld ymateb busnesau a sefydliadau i sialens MORR, sef rheoli'r risg i'r rhai sy'n gyrru wrth eu gwaith. Mae hyn yn hwb mawr i ni.

"Fe dyfodd ein busnes ni yn y maes hwn 45% yn 2005/2006. Mae hynny'n dangos cymaint o ddifrif bellach, yw'r rhai sy'n gyfrifol am reoli fflydoedd wrth daclo'r pwnc.

"Mae pobl fel petaen nhw wedi derbyn y ddadl erbyn hyn mai dyma'r broblem ddiogelwch alwedigaethol fwyaf y mae'r wlad yn ei hwynebu a bod rhaid i benaethiaid fflydoedd wneud rhywbeth amdani."

Dywedodd fod mwy a mwy o gyflogwyr cyfrifol yn mabwysiadu trefn o archwilio, o hyfforddi rheolwyr ac o asesu'r risg ac yna'n trefnu hyfforddiant i'w gyrwyr yn ôl yr angen. Bydd llawer o gyflogwyr yn rhedeg cynlluniau i wobrwyo ymddygiad da wrth yrru.

"Yn ei hanfod, wrth reoli'r risg i'r rhai sydd ganddyn nhw'n gyrru, maen nhw'n gwarchod eu prif ased, eu gweithwyr," meddai Charles Davis. "A rhaid bod hynny'n newyddion da i bawb sy'n defnyddio'n ffyrdd."

Menter ddiweddaraf RoSPA yn y maes hwn yw'r ROADTest, yr uwch-brawf gyrru cyntaf i gael ei gynllunio'n unswydd ar gyfer gyrwyr busnes. Yn ôl y ffigurau, mae uwch-yrwyr tua 25 y cant yn llai tebyg o fod mewn damweiniau.

http://www.rospa.com/morr/information/morr_guide.htm

Peirianwyr yn cwestiynu gwerth llinellau gwyn

Nid yw'r llinell wen ar ganol ffordd leol yn 'ateb unrhyw ddiben diogelwch', a cheir tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai eu dileu beri i gerbydau arafu, yn ôl y drafft o'r 'Manual for Streets' sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth.

Mae'r cyhoeddiad fel petai'n ategu penderfyniad Cyngor Sir Wiltshire i ddileu marciau canol ffyrdd 12 o bentrefi lle mae terfyn cyflymdra o 30mya. Dywed nad yw'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol (y TSRGD) yn mynnu bod rhaid wrth linellau canol ac 'nad oes fawr o ymchwil sy'n dangos eu bod nhw'n esgor ar unrhyw fantais o ran cynyddu diogelwch ar ffyrdd lleol'.

Ond meddai ***John Smart,*** cyfarwyddwr materion technegol y Sefydliad Priffyrdd a Chludiant: "Does dim dwywaith na allen ni gwtogi ar yr arwyddion a'r llinellau ar lawer o ffyrdd preswyl. Ond dyw'r dystiolaeth hon ddim fel petai'n argyhoeddi'n llwyr. Mae angen i ni gofio nad oedd gennym ryw lawer o linellau neu arwyddion 40 mlynedd yn ôl, ond bod llawer iawn mwy o ddamweiniau bryd hynny."

Dywedodd ***Andrew Whyatt,*** rheolwr grŵp traffig a diogelwch y ffyrdd yn Wiltshire, fod y gostyngiadau mewn cyflymdra 'a hynny heb gynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau' yn y 12 safle yn awgrymu bod modd dileu rhagor o farciau. Ond, meddai, 'dyw'r canlyniadau, yn ystadegol, ddim yn gwbl bendant'.

Yr oedd ***George Lee,*** o Gymdeithas Marciau Diogelwch Ffyrdd, yn 'pryderu'n fawr' am y ddogfen arfaethedig. Honnodd fod 'llawer o dybio a dyfalu yn sail iddi'. www.surveyormagazine.com

Osgoi slaes chwip drwy gymryd y camau syml hyn

O osod yr ateg pen yn y lle cywir, gallwch chi helpu i'ch diogelu'ch hun rhag slaes chwip ac, o bosibl, rhag cael anaf tymor-hir. P'un a ydych chi'n yrrwr neu'n deithiwr, rhaid i chi bob amser sicrhau bod eich ateg pen yn y safle cywir:

- Gwnewch yn siŵr bod pen yr ateg mor uchel â thop eich pen
- Rhowch yr ateg mor agos at gefn eich pen â phosibl.

Llun 1 – Mae'r llun hwn yn dangos ateg pen yn y safle cywir. Bydd yn cwtogi ar y risg o gael anaf slaes-chwip.

Gan fod cefn y sedd yn gymharol unionsyth, mae modd gosod yr ateg yn ymyl cefn y pen.

Gan fod top yr ateg ar yr un lefel â thop pen yr unigolyn, bydd hynny hefyd yn helpu i atal anafiadau.

Llun 2 - **Mae'r llun hwn yn dangos ateg mewn safle gwael.**

Er bod top yr ateg ar yr un lefel â thop pen yr unigolyn, mae bwlch mawr rhwng cefn pen yr unigolyn a'r ateg.

Gan fod y bwlch hwn - a ddangosir gan y saeth felen - mor fawr, gall y pen symud a gwyro ymhellach yn ôl gan gynyddu'r risg y caiff yr unigolyn anaf.

http://www.rospa.com/roadsafety/advice/motorvehicles/index.htm

Mesur newydd i dargedu llabystiaid

Cafodd y Mesur sy'n creu cosbau newydd a llym i'r llabystiaid sy'n targedu gweithwyr y gwasanaethau brys ei gefnogi gan Aelodau Seneddol o bob plaid pan gafodd ei drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.

O dan y Mesur (Rhwystro) Gweithwyr Brys, a gynigiwyd gan AS Llafur Gorllewin Abertawe, Alan Williams, bydd hi'n drosedd rhwystro'r gwasanaethau brys. Gall y rhai a geir yn euog gael eu dirwyo hyd at £1000.

Gallai'r Mesur ddod yn ddeddf gwlad yn ystod y sesiwn Seneddol presennol, a bydd yn cysoni'r ddeddfwriaeth sy'n diogelu'r gwasanaethau brys yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon â'r sefyllfa yn yr Alban ers cyflwyno Deddf Gweithwyr Achosion Brys (Yr Alban) 2005 yno.

ANPR – y chwyldro mwyaf ym myd plismona ers DNA

Mae'r defnyddio ar y cyfleuster Adnabod Platiau Rhif yn Awtomatig (ANPR) wedi datblygu cryn dipyn mewn cwta ugain mlynedd. Ei rôl wreiddiol oedd helpu i ymladd terfysgaeth, ond erbyn heddiw mae'n dechnoleg safonol a gaiff ei defnyddio'n feunyddiol gan holl heddluoedd Prydain.

Bellach, mae'r defnyddio arno ar fin cynyddu ymhellach wrth i bob heddlu gael ei gysylltu i greu'r system fwyaf helaeth a soffistigedig o arolygu ffyrdd yn y byd, ac yn un a all ddarllen miliynau o blatiau rhif bob dydd. Y bwriad yw i Ganolfan Ddata newydd yr ANPR ddechrau ar ei gwaith ym mis Medi ac i bob heddlu fod wedi'i gysylltu â hi erbyn diwedd eleni. Rhagwelir llif ddwyffordd o wybodaeth rhwng yr heddluoedd a'r ganolfan. Bydd hynny'n fodd iddi adnabod ceir sydd wedi'u clonio yn ogystal â thynnu sylw at geir sydd 'o ddiddordeb'.

Cyngor Diogelwch Cludiant Ewrop

Mae Cyngor Diogelwch Cludiant Ewrop wedi lansio offeryn polisi newydd i helpu Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i gynyddu diogelwch ar eu ffyrdd.

Bydd Mynegai Perfformiad Diogelwch y Ffyrdd (y "RoadSafety PIN") yn cymharu perfformiad yr Aelod-Wladwriaethau o ran hybu ymddygiad diogel gan ddefnyddwyr y ffyrdd a hyrwyddo isadeiledd diogel a cherbydau diogel, yn ogystal ag o ran llunio polisïau cadarn ar sail tystiolaeth.

http://www.etsc.be/PIN.php

Tacograffau digidol newydd i hybu diogelwch ar y ffyrdd

Penllanw deg mlynedd o weithio a datblygu, negodi a rheoleiddio gan y diwydiant cludo, llywodraeth Prydain a'r Undeb Ewropeaidd yw cyflwyno tacograffau digidol ar gerbydau masnachol dros 3.5 o dunelli metrig, bysiau moethus a rhai bysiau cyffredin.

Oherwydd y datblygiad hwn, rhaid i bob model newydd a gaiff ei gofrestru o 1 Mai ymlaen ac sy'n dod o dan y rheoliadau fod â thacograff digidol i gofnodi oriau'r gyrrwr, a'r cyflymderau, a'r pellterau a deithiwyd. Y dechnoleg hon sy'n disodli'r hen unedau analog a gyflwynwyd gyntaf yn y 1980au.

Croesawodd y Gymdeithas Cludiant Nwyddau y dechnoleg newydd. Meddai'r cyfarwyddwr materion allanol, Geoff Dossetter: "O dipyn i beth dros y 10 mlynedd nesaf, bydd pob un o'r pum miliwn o lorïau yn Ewrop yn newid i dacograffau digidol, a bydd yr unedau newydd yn helpu i sicrhau nad yw gyrwyr yn gweithio am fwy na'u horiau penodedig."

www.vosa.gov.uk

Diwrnod cofio byd-eang

19eg Tachwedd 2006 fydd y diwrnod y bydd pobl ledled y bydd yn cofio'r rhai sydd wedi'u hanafu neu eu lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd.

Ym 1993 y sefydlodd RoadPeace y trydydd dydd Sul ym mis Tachwedd bob blwyddyn yn Ddiwrnod Cofio Byd-eang i Ddioddefwyr Traffig Ffyrdd, ac fe'i cydnabyddir felly gan y Cenhedloedd Unedig erbyn hyn.

www.roadpeace.org/support/worldday.html

Cysylltwch â'r Golygydd

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600